

Lisa Curtis-Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Lisa Curtis-Jones,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- arolygiad cenedlaethol: Gweithgarwch Ataliol a Hyrwyddo Annibyniaeth i Oedolion Hŷn sy'n Byw yn y Gymuned (Medi 2019)
- gweithgareddau â ffocws (gwasanaethau plant): 26 Gorffennaf 2019 a 5 Awst 2019
- cyfarfod adolygu perfformiad ac ymarfer (gwasanaethau oedolion): 06 Awst 2019
- cyfarfod adolygu perfformiad ac ymarfer (gwasanaethau plant): 08 Awst 2019

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Oherwydd pwysau cyllidebol cynyddol, gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am gymorth gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod haf 2019, cytunwyd ar becyn cymorth o dan adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. O ganlyniad i hynny, cafodd Bwrdd Gwella a Sicrwydd ag aelodau allanol annibynnol ei ymgynnull. Diben cyffredinol y Bwrdd yw cynorthwyo'r Arweinydd i ysgogi'r newid a'r gwelliant sydd eu hangen. Ar adeg ysgrifennu'r llythyr, mae'r Bwrdd yn parhau i gyflawni rôl sicrwydd ac mae'n asesu cynnydd parhaus.

Mae yna rywffaint o dystiolaeth bod canlyniadau da yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl a'u teuluoedd yn yr awdurdod lleol. Mae ein gwaith arolygu ac ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol, a oedd yn cynnwys siarad â phobl, yn nodi bod staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau ymatebol sydd wedi'u hategu gan ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau. Gwelsom y gall pobl ag anghenion cymhleth ddisgwyl cael eu cefnogi i fyw gartref am gyhyd â phosibl, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo eu hannibyniaeth a sicrhau eu bod yn cael y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir.

Mae pryderon ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar ddiffyg capasiti. Mae toriadau blynyddol i gyllidebau, yn ogystal â lefelau staffio is, yn enwedig ar lefel y prif swyddog, wedi gadael gwasanaethau cymdeithasol mewn sefyllfa fregus o ran sicrhau canlyniadau llesiant diogel a chyson i bobl. Mae diffyg capasiti strategol hefyd yn herio gwasanaethau cymdeithasol i chwarae rôl lawn mewn gwaith partneriaeth ranbarthol a'r gallu i gyflwyno newidiadau strategol ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen. Mae'r risgiau i gynnal darpariaeth gwasanaeth digonol wedi dwysáu ym maes gwasanaethau plant am fod y pennaeth gwasanaeth profiadol wedi gadael yn ddiweddar heb neb parhaol i lenwi'r swydd hon.

Er y llwyddwyd i leihau'r gorwariant a ragwelwyd ar gyfer 2019-2020, mae gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i gael eu harwain gan alw. Nid yw cymorth corfforaethol ar gyfer

gwneud penderfyniadau cyllidebol anodd i fodloni darpariaeth statudol bob amser yn ddigon cadarn. Mae'r morâl ymysg uwch-swyddogion yn isel.

Pobl

Gofynnwyd am farn pobl yn ystod y broses o gynllunio ac ad-drefnu gwasanaethau. Roedd teuluoedd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fanyleb ar gyfer gwasanaethau gadael gofal diwygiedig ac aethpwyd ati i gynllunio ar gyfer gwasanaethau cymorth cynnar ar y cyd. Hefyd, comisiynwyd 'Dementia Care Matters' i gynnal adolygiad strategol o wasanaethau dydd i bobl â dementia, a oedd yn cynnwys sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliad a grwpiau ffocws gyda chynrychiolwyr o'r sector, teuluoedd a ffrindiau. Nodwyd blaenoriaethau a materion allweddol i'w cynnwys yng nghynllun gweithredu dementia rhanbarthol 2019-2022.

Yn gyffredinol, gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith. Fodd bynnag, ni chofnodir darpariaeth y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg bob amser ar ffeiliau achos i ddangos bod hyn yn digwydd.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gael ei herio gan y gofynion cofrestru ar gyfer gweithwyr gofal cartref. Ar adeg ysgrifennu'r llythyr, roedd angen i nifer sylweddol o staff gofal cartref sy'n gweithio yn yr awdurdod gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru o hyd, fel sy'n ofynnol.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi parhau â'i daith tuag at ailfodelu gwasanaethau cymorth cynnar ac atal. Lansiodd yr Hwb Cymorth Cynnar ym mis Hydref 2019, er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol eraill i gychwyn, ac yna teuluoedd. Mae'n cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cydlynnydd y Tîm o Amgylch y Teulu, a gwasanaethau i Ofalwyr Ifanc. Mae'r Hwb hwn hefyd yn cyfeirio unigolion at wasanaethau cyffredinol. Ochr yn ochr â hyn i oedolion, mae swyddogion cymorth meddygon teulu a chydlynwyr cymunedol ar gael, a gall pobl yn yr ysbyty ddisgwyl cael ymateb amserol gan fenter Staywell@home er mwyn eu helpu i ddychwelyd adref.

Mae cynyddu nifer y staff wrth y drws ffrynt yn parhau i fod yn her i'r awdurdod lleol. Mae angen i uwch-reolwyr barhau i sicrhau bod y gwaith o recriwtio a chadw staff yn ddigonol i fodloni gofynion y gwasanaeth, a bod yr ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau wedi'u cymhwyso'n addas ac yn cael eu goruchwylio'n briodol. Gwnaethom nodi bod angen i reolwyr sicrhau bod sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' yn cael eu hymgorffori'n llawn mewn ymarfer er mwyn sicrhau bod y canlyniadau personol penodol y mae pobl am eu cyflawni yn cael eu nodi a'u cofnodi bob amser. Yn ystod ein gweithgarwch ffocws mewn gwasanaethau plant, gwelsom fod yna rai gwelliannau i ansawdd yr asesiadau ers yr arolygiad diwethaf. Gwelwyd y gwelliannau hyn ar ol i gynllun gwella manwl gan ei lunio gan uwch-reolwyr a ddangosodd ymrwymiad i ddatblygiad parhaus.

Rhoddodd yr awdurdod lleol blentyn mewn lleoliad heb ei gofrestru am gyfnod o amser gan nad oedd lleoliad amgen addas ar gael. Mae'r awdurdod lleol wedi dangos ei fod yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion penodol yr unigolyn yn ei ofal, ac mae wedi rhoi gwybod i AGC am ddatblygiadau drwy gydol y broses. Mae'r sefyllfa hon bellach wedi'i hunioni.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) cenedlaethol ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn. Byddwn yn monitro datblygiad strategaeth gomisiynu a sefyllfa'r farchnad mawr ei hangen er mwyn mapio galw am wasanaethau yn y dyfodol ac i helpu i lywio'r farchnad.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Ni chawsom ymateb ffurfiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac felly gofynnwn eto i chi roi gwybod i ni a chadarnhau sicrwydd o'ch ymarfer mewn adolygiadau o'r fath. Er enghraifft, a gynhelir cyfarfodydd tarfu neu gyfarfodydd am leoliadau yn chwalu, a sut y caiff yr hyn a ddysgir o adolygiadau / cyfarfodydd o'r fath eu cynnwys mewn ymarfer?

Partneriaethau

Mae trefniadau rhanbarthol yn mynd drwy newid sylweddol. Gan fod Cwm Taf Morgannwg, sydd newydd ei sefydlu, wedi bod yn gweithredu trefniadau cysgodi, er enghraifft mewn perthynas â byrddau partneriaeth a byrddau diogelu rhanbarthol, mae 2019-2020 wedi bod yn flwyddyn drawsnewidiol. Felly, mae deinameg gweithio rhanbarthol yn newid. Er gwaethaf rhai heriau cyllidebol, gan gynnwys Cyllid Gofal Integredig, a fydd yn aros ar wahân tan fis Ebrill 2020, mae'r bartneriaeth newydd yn gwneud cynnydd ar drefniadau trawsnewid ar gyfer blaenoriaethau diogelu, a'r gwaith o ddatblygu dull rhanbarthol newydd i ofalwyr. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi croesawu'r newidiadau hyn yn gyffredinol, ac mae cyfleoedd i ddysgu am wahanol dulliau gweithredu, fel cynnwys cymorth cynnar yn y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol, yn cael eu hystyried. Yn ystod 2020-2021, bydd angen gwneud rhagor o waith cysoni ac ymgorffori ffyrdd newydd o weithio. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn ymrwymedig i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos, yn enwedig Rhondda Cynon Taf, y mae'n rhannu cyfrifoldebau am Drefniadau Amddifadu o Ryddid a chynllunio'r gweithlu ag ef.

Mae gweithio mewn partneriaeth ledled y rhanbarth wedi parhau i fod yn arloesol gydag ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaethau integredig. Mae mentrau sydd wedi'u cynllunio i wneud y defnydd gorau o adnoddau a hyrwyddo llesiant, fel Staywell@home a phrosiectau Valley Life yn enghreifftiau o drefniadau partneriaeth sy'n manteisio ar gydberthnasau gwaith strategol a gweithredol cadarnhaol rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae gwaith cynllunio ar y cyd hefyd yn mynd rhagddo i ehangu gwasanaethau Staywell@home ymhellach i gynnwys gwasanaethau cyn derbyn, ac i ehangu rhai

gwasanaethau gofal dementia ychwanegol i fwy o ddefnyddwyr gwasanaethau i oedolion. Rydym yn awgrymu y dylid cryfhau'r cysylltiadau rhwng yr awdurdod lleol, sefydliadau'r trydydd sector, cydgysylltwyr cymunedol a gweithwyr cymorth meddygon teulu, er mwyn gwella canlyniadau i bobl ymhellach.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Mae ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer gwasanaethau oedolion 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn yn y gymuned. Ar gyfer gwasanaethau plant, mae'r ffocws ar waith atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau oedolion hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau oedolion hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer cyd-arolygu trefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn